<u>Cymuned Iachusol Edessa</u>

Wythnos ar ôl wythnos drwy gydol y flwyddyn, mae cynulleidfaoedd o Gristionogion Uniongred drwy'r byd yn cychwyn eu dathliad o'r Offeren Ddwyfol  - y gwasanaeth Cymun - drwy i'r offeiriad lafar-ganu'r geirau hyn:

Mae cymuned yn medru dioddef yr union bethau y mae unigolion yn eu dioddef – newyn, anghyfiawnder, gormes, afiechyd a marwolaeth. Gall cymuned ddioddef marwolaeth ar raddfa fawr mewn rhyfel neu bla. Yn wir, fel y gwyddom yn dda, mae’r pla presennol yn gormesu cymuned fyd-eang y ddynoliaeth. 0286.5080ned 5.25 842 renW*nBT/F2 14 Tf1 0 0 1 247.6 608.92 Tm0 g0 G[(d)7( )-5(y)7

Yn nhermau ffydd, mae yna gyd-ddibyniaeth rhwng yr unigolyn a’r gymuned ffydd. Ni all yr Eglwys fodoli heb Gristionogion unigol, ac fel y mae Sant Paul yn (is)-3(t)14( )] W ei bwysleisio nid yw’n bosib bod yn Gristion heb fod yn rhan o Gorff Crist – yr Eglwys: <004B><0015A><300.38(334)Q<011A><00111835A8Q0037050Q1102>0031><0035518010F>717

ddinas. Y cyntaf i gael ei iacháu yn Edessa yw'r Brenin Abgar ei hun ac wedyn mae Adai yn iacháu llaweroedd yn y ddinas. Mae'r brenin yn galw'r dinasyddion ynghyd i glywed pregethu'r Apostol Adai. Mae yntau'n egluro bod y gwyrthiau iachâu hyn yn profi gwirionedd yr Efengyl y mae wedi cael ei anfon i'w phregethu. Yn ganlyniad i'r gwyrthiau iacháu, a phreg

Ar un wedd, hawdd gofyn pa mor berthnasol inni heddiw yw patrwm a gweledigaeth bywyd eglwysig Edessa yn y bumed ganrif.

Efallai y cawn yr ateb os edrychwn ar rai o'r egwyddorion fu'n sail i weledigaeth a gweithgaredd teyrnas Edessa yn dilyn troedigaeth y Brenin Abgar V[ed].

Roedd y Brenin Abgar yn argyhoeddedig ei fod wedi derbyn iachâd dwyfol.

- Roedd amgylchiadau mabwysiadu'r Ffydd – iachâd y brenin a'r gwyrthiau iacháu a gyflawnodd yr un oedd wedi eu cenhadu, sef Sant Adai – wedi eu hargyhoeddi bod iacháu yn un o hanfodion y Ffydd Gristionogol.
- Gwelent fod cysylltiad rhwng iachâd corff yr unigolyn (i enwi un math o iachâd) a 'chorff' cymuned Edessa (sef cyd-destun iachâd y brenin a'r bobl).
- Credent mai rhan annatod o'u Ffydd oedd bod iachâd yr unigolyn yn ei alw, ei gymhwyso a'i rymuso i fod yn gyfrwng iachâd yn y gymuned ac i'r gymuned.
- Yn ychwanegol at y cysylltiad annatod rhwng derbyn a bod yn gyfrwng iachâd, gwela'r awduron Syriaidd gysylltiad cyfochrog ac annatod rhwng addoliad ac iachâd, a bod addoliad, wrth gwrs, yn cynnwys bod y gymuned ffydd yn cyd-addoli.

Onid yw'r egwyddorion hyn sy'n sail i'r weledigaeth 'Syriaidd' hon o ganrifoedd cynharaf Cristionogaeth lawn mor ddilys ar gyfer ein cymdeithas gyfoes, ac yn benodol ar gyfer Cymru gyfoes? Ac onid yw ffyniant rhai o'r cymunedau ffydd cyfoes mwyaf hyfyw yn dangos fod ffydd, gweddi a'r dyhead ysol am heddwch a chyfiawnder a'r frwydr drostynt yn parhau yn nodweddion llawn mor greiddiol yn yr oes hon ag yn Edessa'r bumed ganrif? Efallai y cawn gyfle i graffu ymhelach ar hyn.

+Tad Deiniol, Blaenau Ffestiniog

Mehefin 2021